

Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch



Nod Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch yw helpu unigolion sydd ag adnoddau cyfyngedig neu'r rhai yr ystyrir eu bod mewn argyfwng. Mae'r gronfa hefyd yn cynorthwyo grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl fregus.

Defnyddiwyd cyllid gan Gronfa Cymorth Penarlâg a'r Cylch ar gyfer:

- offer a gweithgareddau ar gyfer grwpiau/elusennau cymunedol Penarlâg sy'n gweithio gyda phobl agored mewn angen.
- eitemau hanfodol i'r cartref e.e. nwyddau gwyn, dillad gwely, carpedi ac ati.
- eitemau sy'n hanfodol i leddfu dioddefaint bwyd a thlodi tanwydd (e.e. parseli bwyd, blancedi, poteli dŵr poeth, thermolau, atgyweiriadau boeler).
- gwneud atgyweiriadau a/neu ail-addurno hanfodol.
- darparu clybiau cinio, cydweithredu bwyd, gweithgareddau sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol, lleihau unigedd a lliniaru tlodi.

Grantiau ar gael

Gall unigolion a sefydliadau wneud cais am grantiau hyd at £1,000 y flwyddyn. Gall sefydliadau sy'n gwneud cais am brosiect cymunedol wneud cais am gyllid blwyddyn luosog.

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg h.y. rhaid i'r buddiolwyr pennaf fod o'r plwyf.
- Unigolion sy'n byw ym mhlwyf hynafol Penarlâg.

Mae plwyf hynafol Penarlâg yn cynnwys y wardiau modern canlynol: Aston, Dwyrain Brychdyn, Gorllewin Brychdyn, Pentrobin Bwcle, Ewloe, Penarlâg, Mancot, Cyffordd yr Wyddgrug Saltney, Stonebridge Saltney, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf, Gorllewin Shotton.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen.

Sut i ymgeisio?

Mae dwy ffurflen gais y gellir eu cyflwyno ar-lein.

- Sefydliadau sy'n gwneud cais ar ran unigolyn.
- Sefydliadau/Grwpiau sy'n gwneud cais am brosiect cymunedol er budd grŵp o unigolion.

Gellir cyrchu'r ddwy ffurflen gais trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn i dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Gymorth Penarlâg a'r Cylch bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig prosiect 1 flwyddyn.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac bod y swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

